



## **DIM EMBARGO – I'W GYHOEDDI AR UNWAITH**

### **DATGANIAD I'R WASG:**

#### **CYNNYDD SYLWEDDOL MEWN YMWELWYR I GŴYL FACH Y FRO 2016**

Yn dilyn llwyddiant Gŵyl Fach y Fro llynedd, mae Menter Bro Morgannwg yn falch iawn i gyhoeddi y gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r ŵyl yn ei ail blwyddyn.

Daeth dros 3,000 o ymwelwyr i fwynhau'r ŵyl rhad ac am ddim yma ar Ynys y Barri ddydd Sadwrn – cynnydd o bron i 80% i'w gymharu â llynedd (1,700).

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bro Morgannwg, roedd modd ehangu llawer ar arlwy'r diwrnod – am y tro cyntaf eleni roedd stondinau crefft a chynnyrch Cymraeg, bar, stondinau bwyd, adloniant stryd, ac amryw o weithdai crefft, syrclas a chwaraeon – ac fe roedd yr ymateb i'r datblygiadau newydd yma'n wych.

Roedd y line-up yn cynnwys rhai o artistiaid mwyaf blaengar y sîn gerddoriaeth Gymraeg – gan gynnwys Meic Stevens, Sorela a Sŵnami – ac roedd nifer o'r artistiaid yma'n dod i berfformio ar Ynys y Barri am y tro cyntaf erioed. Roedd hefyd yn gyfle arbennig i roi llwyfan i artistiaid lleol – Hanna Morgan a Lost in Chemistry (enillwyr Brwydr y Bandiau Maes B/C2 2015).

Wrth siarad am lwyddiant yr ŵyl eleni, dywedodd Siân Lewis, Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg:

*Ry'n ni wrth ein bodd gyda llwyddiant Gŵyl Fach y Fro eleni. Mae'r niferoedd ddaeth i fwynhau yr Ŵyl yn brawf ein bod wedi llwyddo i greu gŵyl sydd ag apêl eang i Gymry Cymraeg a di-Gymraeg y Barri – a thu hwnt. Ein targed eleni oedd denu 2,500 o bobl ac ry'n ni wedi cyrraedd tu hwnt i'r targed hynny gyda dros 3,000 yn mynychu. Roedd mwy o weithgareddau a mwy o bartneriaid na llynedd. Mae Gŵyl Fach y Fro wedi tyfu oherwydd ymateb i'r galw cynyddol yn y Fro am gyfleoedd i gymdeithasu a mwynhau'r iaith Gymraeg.*

Rydym hefyd yn gofyn am adborth gan fynychwyr yr ŵyl, fydd yn ein helpu wrth werthuso'r digwyddiad. Mae'r holiadur ar-lein ar gael yma:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/GwylFachyFro16>

**Diwedd**

[www.menterbromorgannwg.cymru](http://www.menterbromorgannwg.cymru)

Facebook: Menter Bro Morgannwg

Twitter: @MIBroMorgannwg / #gwylfachyfro

### Nodiadau

- *Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith.*
- *Cafodd Gŵyl Fach y Fro 2016 ei noddi gan Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bro Morgannwg.*

Am fwy o wybodaeth: [sian@menterbromorgannwg.cymru](mailto:sian@menterbromorgannwg.cymru) / 029 20689888

Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg

[www.menterbromorgannwg.cymru](http://www.menterbromorgannwg.cymru)



**NO EMBARGO – TO BE PUBLISHED IMMEDIATELY**

## **PRESS RELEASE:**

### **A BIG INCREASE IN VISITORS TO GŴYL FACH Y FRO 2016**

Following last year's successful establishment of Gŵyl Fach y Fro, Menter Bro Morgannwg are very pleased to announce that the festival has grown substantially and attracted many more visitors to this year's event.

Over 3,000 people attended this free and inclusive festival which was held on Barry Island on Saturday – an increase of nearly 80% compared to last year (1,700).

With support from Welsh Government, Wales Arts Council and the Vale of Glamorgan Council, the organisers were able to introduce lots of new elements to the event – for the first time this year there were stalls selling local Welsh crafts and produce, bar, food stalls, street entertainers, and a variety of arts and crafts, circus and sports workshops – and the response shows that these new developments have been very well received.

The line-up included some of the biggest names in the Welsh music scene – including Meic Stevens, Sorela and Sŵnami – and many of these artists were performing on Barry Island for the first time. It was also great to invite local artists to perform through the medium of Welsh – Hanna Morgan and Lost in Chemistry (winners of the National Eisteddfod/Maes B/C2 Battle of the Bands 2015).

Speaking about the festival's success, Siân Lewis, Menter Bro Morgannwg Chief Executive, said: *We are overjoyed with the success of this year's Gŵyl Fach y Fro. The number of people who came to enjoy the festival is proof that we have succeeded to create a festival which attracts a vast audience of Welsh and non-Welsh speakers – from Barry and beyond. Our target was to attract 2,500 people to Gŵyl Fach y Fro 2016, and we have exceeded this target with over 3,000 people attending this year's event. There were many more activities and partners involved in this year's festival. Gŵyl Fach y Fro has grown as a response to the growing demand by the Vale's citizens for more opportunities to socialise and enjoy through the medium of Welsh.*

We are in the process of evaluating this year's event, and have created an online survey to collect feedback from those that attended. The survey can be found here: <https://www.surveymonkey.co.uk/r/GwylFachyFro16>

**End**

[www.menterbromorgannwg.cymru](http://www.menterbromorgannwg.cymru)

Facebook: Menter Bro Morgannwg

Twitter: @MIBroMorgannwg / #gwylfachyfro

#### Notes

- *Gŵyl Fach y Fro is a festival established in 2015 by the Vale's Welsh language initiative, Menter Bro Morgannwg, to celebrate and raise the profile of the Welsh language across the Vale.*
- *Menter Bro Morgannwg's primary aim is to increase the social use of the Welsh language in the Vale, and create opportunities for the County's people to use the language outside school and work hours, and holding this all-inclusive event on the shores of Barry Island, which is such a popular attraction during the summer especially, is a very effective way of raising the profile of the Welsh language amongst citizens from the Vale and afar.*
- *Gŵyl Fach y Fro means 'Little Festival of the Vale' in Welsh.*
- *Gŵyl Fach y Fro 2016 was funded by Welsh Government, Wales Arts Centre and the Vale of Glamorgan Council.*

For more information: [sian@menterbromorgannwg.cymru](mailto:sian@menterbromorgannwg.cymru) / 029 20689888

Menter Bro Morgannwg Chief Executive

[www.menterbromorgannwg.cymru](http://www.menterbromorgannwg.cymru)